

Cyngor Cymuned Mawddwy

Adroddiad Bioamrywiaeth 2019/2020

Mae ardal Cyngor Cymuned Mawddwy yn cynnwys wardiau Aberangell (113 o etholwyr) LLanymwddwy (122 o etholwyr) a Dinas Mawddwy (259 o etholwyr). Praesept y Cyngor yw £8,820.

Mae ysgol gynradd, addoldai, dwy neuadd bentref, tafarndai, a gwestai. Mae'r trigolion yn gweithio yn y byd amaeth, twristiaeth a gwasanaethau eraill, a nifer sylweddol yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi. Mae nifer yn gweithio o adref.

Mae Cymuned Mawddwy yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Ardal amaethyddol yw'r cymoedd sy'n amgylchu'r pentrefi.

Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru a Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.

Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar Fynwent y Plwyf yn Mallwyd a Llanymawddwy, a mynwent y capel yn Dinas Mawddwy. Mae claddedigaethau ym mynwent Dinas, ac mae'r gwair yno ac ym mynwentydd yr Eglwysi yn cael ei dorri 3 waith y flwyddyn.

Adroddiad Gweithredu		
Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	- Wrth ymateb i geisiadau cynllunio - wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor - wrth bwrcasu	Cyngor
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd		
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri Torri gwair Mynwent yr Eglwys 3 waith y flwyddyn.	
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Plygu/torri gwrych ym mynwent Llanymawddwy	Cyngor

-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Gyda chymorth wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri.	Cyngor
-defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth		
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Cefnogi gwaith amaethwyr a gwaith cynnal llwybrau	Cyngor
<p>Arolwg o ddyletswydd Adran 6</p> <p>Monitro parhaus Arfarniad yn Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn</p>		
<p>Huw Jones Clerc Cyngor Cymuned Mawdddwy 29/01/2020</p>		